# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Cyncoed Consulting Rooms, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 13 Rhagfyr 2017

Dyddiad cyhoeddi: 14 Mawrth 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-280-2



© Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6

3. Yr hyn a ganfuom ........ 8

   Ansawdd profiad y claf ........ 9

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 13

4. Beth nesaf? ........ 23

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol ........ 24

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 25

   Atodiad B – Cynllun gwella ........ 26

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Cyncoed Consulting Rooms (CCR), 277 Cyncoed Road, Caerdydd, CF23 6XH, ar 13 Rhagfyr 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol. Cafodd yr arolygiad ei arwain gan reolwr arolygu AGIC.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, ac yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom fod gan Cyncoed Consulting Rooms drefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch a llesiant cleifion sy'n mynychu'r clinig.

Fodd bynnag, gwelsom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau/safonau ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darparodd cleifion adborth cadarnhaol iawn ynghylch y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig.
- Roedd holl ardaloedd y clinig yn lân ac yn daclus.
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr a'u cydweithwyr yn y tîm.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dangos bod y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion (trwy weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld) yn unol â chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac arferion da.
- Yr wybodaeth o fewn y datganiad o ddiben[1] a'r canllaw i gleifion fel eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau.
- Yr adroddiadau mewn perthynas ag ymweliadau gan yr unigolyn cyfrifol, fel eu bod yn dangos bod yr holl elfennau sy'n ofynnol gan y rheoliadau wedi eu hystyried.

---

[1] Mae datganiad o ddiben yn ddogfen sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac sy'n cynnwys cyfres safonol o wybodaeth am wasanaeth darparwr.

- Y trefniadau i ddangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ac arfarniadau priodol.

Gwnaethom nodi tor-rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn. Roedd y rhain yn gysylltiedig â gwybodaeth goll yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion, i ddangos bod y gofal a ddarperir yn seiliedig ar dystiolaeth, hyfforddiant staff a gwerthuso. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, gan y gallai methu â gwneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae partneriaeth o bum meddyg teulu wedi'i chofrestru i ddarparu clinig annibynnol yn 277 Cyncoed Road, Caerdydd, CF23 6XH. Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf ar 2 Rhagfyr 2005.

Mae'r clinig yn cynnwys pedair ystafell ymgynghori ac un ystafell driniaeth. Mae wedi'i gofrestru i ddarparu amrediad o wasanaethau gofal iechyd fel yr amlinellir yn ei ddatganiad o ddiben (a gymeradwywyd gan AGIC). Ni ddarperir gwelyau dros nos, ac ni ellir cynnal triniaethau sy'n ymwneud â gweinyddu anesthetig cyffredinol. Darperir gwasanaethau gofal iechyd gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth ac sydd wedi derbyn breintiau ymarfer[2] (gan y gwasanaeth) i weithio yn y clinig.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o wyth aelod o staff, sy'n cynnwys rheolwr cyffredinol, derbynyddion a nyrs gofrestredig. Ar adeg ein harolygiad, roedd swydd y nyrs gofrestredig yn wag. Cadarnhaodd uwch-staff fod y swydd wedi'i llenwi a bod unigolyn ar fin dechrau yn ei swydd yn y dyfodol agos.

---

[2] Mae rhoi breintiau ymarfer yn broses lle y rhoddir caniatâd i ymarferydd meddygol weithio mewn ysbyty neu glinig annibynnol.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Darparodd cleifion adborth cadarnhaol iawn am eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir gan y clinig.

Canfuom fod staff yn y clinig yn trin cleifion â chwrteisi a pharch. Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo ac amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion. Roedd trefniadau hefyd ar waith er mwyn i gleifion ddarparu eu safbwyntiau am y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig.

Dylid gwneud ymdrechion pellach i ddarparu gwybodaeth yn rheolaidd mewn fformatau gwahanol, yn unol ag anghenion cyfathrebu'r cleifion.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael safbwyntiau cleifion ynghylch y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 20 o holiaduron. Dywedodd cleifion eu bod wedi bod yn gleifion yn y clinig rhwng llai na chwe mis a dros bum mlynedd. Nododd y rhan fwyaf ohonynt eu bod wedi bod yn gleifion rhwng un a phum mlynedd.

Darparodd cleifion adborth cadarnhaol iawn am eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Pan ofynnwyd i gleifion raddio'r gofal a'r driniaeth a ddarperir, gwnaethant roi gradd o rhwng wyth a deg allan o ddeg, gyda'r rhan fwyaf yn rhoi sgôr o ddeg allan o ddeg (arbennig).

Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae fy nhriniaeth a'r gwasanaeth yma wedi bod yn rhagorol. Mae wedi newid fy mywyd a byddwn yn argymell CCR i unrhyw un."*
>
> *"Mae'r holl aelodau o staff yn CCR yn darparu gwasanaeth cyfeillgar, effeithlon a phroffesiynol…"*

*"Mae'r staff (gweinyddol a meddygol) yn CCR yn groesawgar iawn, ac maen nhw'n barod i helpu gyda chwestiynau a phroblemau a allai godi…"*

*"Gwasanaeth ardderchog, cyfeillgar iawn a staff cymwynasgar yn y dderbynfa…"*

### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd peth gwybodaeth ar gael i gleifion am y ffordd y gallant gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Roedd taflenni gwybodaeth ar gael am ddim yn yr ystafell aros. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth am frechiadau er mwyn helpu i atal ffliw, yr eryr a hepatitis B. Roedd cyngor a gwybodaeth am deithio hefyd ar gael ar gais. Roedd gwybodaeth arall a oedd ar gael yn bennaf yn gysylltiedig â'r gwasanaethau a gynigir yn y clinig. Dylai'r personau cofrestredig archwilio pa ddeunyddiau hybu iechyd ychwanegol y gellir eu darparu i gleifion a fydd o fudd iddynt, trwy ystyried y gwasanaethau a ddarperir.

### Urddas a pharch

Canfuom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo urddas cleifion a gwelsom fod staff yn trin cleifion â pharch.

Roedd y personau cofrestredig wedi llunio datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd y rhain yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer parchu preifatrwydd cleifion.

Roedd gan y clinig bedair ystafell ymgynghori ac un ystafell driniaeth. Gwnaethom arsylwi bod y drysau wedi'u cau yn ystod ymgynghoriadau. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori a'r ystafell driniaeth wedi'u lleoli i ffwrdd o'r ystafell aros. Roedd y trefniadau hyn yn helpu i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau neu pan fyddant yn derbyn triniaeth.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos a oedd yn hysbysu cleifion o'u hawl i gael hebryngwr yn bresennol pan fyddant yn gweld staff gofal iechyd. Nod defnyddio hebryngwyr yw gwarchod y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a'r claf pan fo’r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn archwilio'r claf.

Gwelsom fod staff y dderbynfa yn croesawu cleifion mewn modd cyfeillgar a'u bod yn gwrtais pan fyddant yn siarad â hwy. Dywedodd cleifion a ddarparodd sylwadau i ni hefyd fod staff bob amser yn gwrtais ac yn garedig wrth gwblhau gofal a thriniaeth.

## Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Fel y disgrifiwyd yn gynharach, roedd peth deunydd hybu iechyd ar gael.

Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion yn amlinellu gwybodaeth am y clinig. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir, sut y gellid cael mynediad atynt, a'r trefniadau ar gyfer cydsyniad i driniaeth. Roedd hefyd polisi ysgrifenedig cyfredol ar geisio cydsyniad dilys gan glaf.

Er mwyn cydymffurfio â’r rheoliadau, dylai'r holl gleifion dderbyn copi cyfredol o ganllaw i gleifion y clinig. Roedd arwydd wedi'i arddangos a oedd yn hysbysu'r cleifion fod y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion ar gael yn nerbynfa'r clinig.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a roddodd sylwadau yn teimlo eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu gofal a'u triniaeth, gan gynnwys y peryglon, yr opsiynau triniaeth a'r costau.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Yn gyffredinol, darparwyd gwybodaeth trwy gyfrwng y Saesneg yn unig. O ystyried bod y clinig yn gweithredu yng Nghymru, dylid gwneud ymdrechion parhaus i ddarparu gwybodaeth trwy'r Gymraeg a'r Saesneg.

Dylid hefyd gwneud ymdrechion i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd a fformatau eraill, gan ystyried anghenion a dymuniadau cyfathrebu'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Nid oedd dolen sain ar gael i gynorthwyo'r cleifion hynny a oedd yn drwm eu clyw (ac sy'n gwisgo cymhorthion clyw) i gyfathrebu â staff y clinig. Gwelsom fod arwyddion lluniau wedi'u harddangos i helpu cleifion i ddod o hyd i ffordd addas o adael mewn argyfwng, pe bai tân yn yr adeilad.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wneud gwybodaeth yn hygyrch mewn ieithoedd a fformatau gwahanol fel mater o drefn, gan ystyried anghenion a dymuniadau cyfathrebu'r cleifion.

## Cynllunio a darparu gofal

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal a thriniaeth wedi'u hamlinellu o fewn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion.

Yn gyffredinol, roedd pobl yn cael mynediad at wasanaethau'r clinig oherwydd bod meddyg teulu'r claf wedi'u hatgyfeirio yno. Ar gyfer rhai gwasanaethau, roedd cleifion yn gallu atgyfeirio eu hunain. Disgrifiwyd trefniadau ar gyfer asesiadau cleifion gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol i nodi anghenion gofal a thriniaeth unigol cleifion. Nid oedd y clinig yn cynnig gwasanaethau diagnostig neu sgrinio. Fodd bynnag, gallai'r clinig drefnu'r rhain, trwy drefniadau gydag ysbyty annibynnol lleol.

### Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw i glefion yn amlinellu'n glir y darperir gwasanaethau trwy ystyried hawliau cleifion yn llawn. Roedd y rhain hefyd yn dweud bod croeso i gleifion gael cwmni perthynas neu ffrind, yn unol â'u hoffterau a'u dymuniadau.

Roedd mynediad ramp i brif fynedfa'r clinig. Ac eithrio un ystafell ymgynghori, roedd yr holl gyfleusterau eraill, gan gynnwys desg y dderbynfa, yr ystafell aros, toiled y cleifion, yr ystafell driniaeth a'r ystafelloedd ymgynghori eraill, wedi'u lleoli ar yr un llawr. Roedd hyn yn golygu y gallai pobl ag anawsterau symudedd a rhieni a oedd â chadeiriau gwthio fynd i mewn i'r adeilad a chael mynediad diogel at y clinig. Gellid hwyluso mynediad at yr adeilad i’r fath gleifion trwy osod drws awtomatig yn y fynedfa.

### Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth

Roedd gan gleifion gyfleoedd i ddarparu adborth am eu profiadau o ymweld â'r clinig.

Gwelsom fod ffurflenni ar gael er mwyn i gleifion ddarparu awgrymiadau neu sylwadau yn barhaus. Dywedodd uwch-staff hefyd fod arolygon boddhad cleifion yn cael eu cwblhau ar sail ad-hoc er mwyn casglu barn cleifion. Roedd yn amlwg bod y sylwadau a dderbyniwyd gan gleifion wedi'u hystyried gan y tîm staff a bod y camau gweithredu oedd wedi cael eu cymryd o ganlyniad i wneud gwelliannau yn briodol.

Nid oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys crynodeb o safbwyntiau cleifion (ac eraill) a gasglwyd fel rhan o weithgarwch sicrhau ansawdd yn y clinig. Mae'n rhaid gwneud trefniadau i fynd i'r afael â hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion rheoleiddiol (gweler adran 'Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth').

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom fod gan y clinig drefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch a llesiant y cleifion sy'n mynychu'r clinig.

Gwnaethom nodi bod angen gwneud rhai gwelliannau ynghylch ymagwedd o reoli meddyginiaethau ac effeithiolrwydd gwiriadau ar rai o'r cyfarpar a ddefnyddir yn y clinig.

Disgrifiodd uwch-staff y ffordd y byddent yn gwneud ymdrechion sylweddol i geisio gwybodaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld i ddangos eu bod yn ymarfer yn unol â chanllawiau clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

### Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd amgylchedd y clinig i'w weld fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da.

Gwelsom fod yr holl ardaloedd yn lân ac yn daclus ac yn rhydd rhag unrhyw beryglon baglu amlwg. Fel y disgrifiwyd yn gynharach, gwnaed ymdrechion i wneud yr adeilad yn hygyrch yn ddiogel i gleifion ag anawsterau symudedd. Roedd grisiau yn arwain i lawr at un o'r ystafelloedd ymgynghori ac roedd y rhain wedi'u marcio'n glir er mwyn lleihau'r risg bod staff, cleifion neu ymwelwyr eraill yn cwympo.

Roedd allanfeydd tân a ffyrdd gadael mewn argyfwng wedi'u nodi'n glir. Darparodd uwch-staff gofnodion i ddangos bod ymarferion tân wedi'u cwblhau ym mis Hydref 2017. Darparwyd cofnodion hefyd a oedd yn dangos bod cyfarpar diogelwch tân a dyfeisiau cludadwy symudol wedi'u gwirio o fewn y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Cadarnhaodd uwch-staff nad oedd asesiadau risg amgylcheddol a gweithredol (er mwyn nodi unrhyw beryglon neu risgiau posibl) yn cael eu cofnodi'n ffurfiol.

Dylai'r personau cofrestredig geisio cyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn sefydlu eu cyfrifoldebau yn hyn o beth. Bydd rhaid cymryd camau wedyn fel sy'n briodol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gwblhau asesiadau risg perthnasol.

Dylid ceisio cyngor gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel y bo'n briodol.

### Atal a rheoli heintiau a dadheintio

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar gael er mwyn helpu arwain staff ynghylch atal a rheoli heintiau.

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus. Gwelsom hefyd fod gan staff fynediad at gyfarpar diogelu personol er mwyn helpu i atal croes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael. Mae golchi dwylo effeithiol yn bwysig i hybu atal a rheoli heintiau.

Cadarnhaodd uwch-staff fod mân lawdriniaethau'n cael eu cynnal. Gwnaethant hefyd gadarnhau bod yr offer a ddefnyddir yn ystod y llawdriniaethau hyn yn rhai untro yn unig. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn rhaid i'r offer hyn gael eu dadheintio, ac felly roedd yn hybu atal a rheoli heintiau yn effeithiol. Gwelsom fod offer meddygol miniog (fel nodwyddau) wedi'u gosod mewn cynwysyddion priodol cyn iddynt gael eu gwaredu. Mae hyn yn helpu lleihau'r risg o niwed (i staff a chleifion) a chroes-heintio gan offer miniog a ddefnyddiwyd.

Teimlodd y rhan fwyaf o gleifion a ddarparodd sylwadau fod amgylchedd y clinig yn lân ac yn daclus.

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi ysgrifenedig ar gael ar reoli meddyginiaethau a ddefnyddir yn y clinig.

Roedd y nyrs yn gyfrifol am reoli meddyginiaethau yn y clinig. Roedd hyn yn cynnwys goruchwylio archebu'r meddyginiaethau, eu derbyn, eu storio'n ddiogel a'u gwaredu. Hyd nes bod nyrs yn dechrau yn ei swydd, cadarnhaodd uwch-staff nad oedd triniaethau lle roedd angen nyrs yn bresennol yn cael eu cynnal yn y clinig.

Gwelsom fod meddyginiaethau yn y clinig yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd cofnodion wedi'u cadw o'r meddyginiaethau a weinyddwyd i gleifion. Roedd y cofnodion hyn yn dangos bod cleifion wedi'u gofyn am alergeddau hysbys er mwyn hyrwyddo eu diogelwch a'u llesiant cyn rhagnodi/gweinyddu'r feddyginiaeth fel rhan o'u gofal a'u triniaeth.

Gwelsom nad oedd ffurflenni presgripsiwn preifat yn cael eu cadw'n ddiogel. Gwnaethom hysbysu'r uwch-staff am ein canfyddiadau fel y gellid storio'r ffurflenni hyn yn ddiogel. Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig fynd i'r afael â hyn er mwyn helpu i sicrhau nad yw ffurflenni presgripsiwn o'r fath yn cael eu colli neu eu dwyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i storio ffurflenni presgripsiwn preifat yn ddiogel pan na fyddant yn cael eu defnyddio.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar gael i arwain staff o ran y camau i'w cymryd pe baent yn amau bod plant neu oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu eu bod mewn perygl yn profi camdriniaeth. Er bod y rhain yn cynnwys manylion cyswllt timau diogelu'r bwrdd iechyd yn yr ardal, dylid hefyd cynnwys manylion cyswllt timau tebyg o fewn ardal yr awdurdod lleol. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod staff yn cysylltu â'r tîm mwyaf perthnasol pan fydd ganddynt bryderon.

Gwnaethom adolygu sampl o dair ffeil staff. Er bod tystysgrif ar gael a oedd yn dangos bod un aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu, nid oedd y ddwy ffeil arall yn cynnwys tystiolaeth fod hyfforddiant addas wedi'i gwblhau. Cadarnhaodd uwch-staff ei bod yn ofynnol i staff gwblhau hyfforddiant ar ddiogelu a gwnaethant esbonio bod trefniadau yn cael eu gwneud er mwyn trefnu hyn. Mae'n rhaid datblygu trefniadau i ddangos bod staff yn gyfredol o ran hyfforddiant ar ddiogelu, ar lefel sy'n briodol i'w rôl yn y clinig.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i gefnogi staff perthnasol i gwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ar lefel sy'n briodol i'w rôl o fewn y clinig.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd amrediad o gyfarpar ar gael yn y clinig er mwyn cefnogi darparu gofal a thriniaeth i gleifion. Cadarnhaodd uwch-staff fod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld weithiau'n dod â chyfarpar gyda nhw, fel y bo'n briodol.

Gwelsom dystiolaeth fod y cyfarpar meddygol yn y clinig wedi'i brofi a'i raddnodi o fewn y flwyddyn ddiwethaf i wirio ei fod yn darparu darlleniadau cywir.

Gwnaethom nodi bod y stripiau profi wrin a'r gefeiliau tafladwy (a ddefnyddir ar gyfer electroserio)[3] wedi mynd heibio eu dyddiadau dod i ben. Gwnaethom hysbysu'r uwch-staff o'n canfyddiadau fel y gellid cymryd camau priodol. Mae'n rhaid i'r personau cofrestredig wneud trefniadau i sicrhau eu bod yn cwblhau gwiriadau rheolaidd o gyfarpar, gyda'r nod o sicrhau ei fod bob amser yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Roedd cyfarpar a ddefnyddir mewn achos brys ar gyfer argyfwng cleifion (llewyg) ar gael yn y clinig. Roedd cyffuriau i drin anaffylacsis[4] ar gael. Cadarnhaodd uwch-staff nad oedd diffibriliwr[5] yn cael ei gadw yn yr adeilad. Gwnaethant gadarnhau bod un ar gael mewn practis deintyddol gerllaw ar gyfer defnydd y staff clinigol. Dylai'r personau cofrestredig gadw'r trefniadau hyn o dan adolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i ymateb i argyfwng claf yn y clinig. Dylid ystyried y canllawiau cenedlaethol perthnasol, er enghraifft y rheini a gyhoeddwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).[6]

Dywedodd yr uwch-staff fod disgwyl i'r staff fynychu hyfforddiant ar adfywio cardio-pwlmonaidd. Fel y disgrifiwyd yn gynharach, roedd gwybodaeth gyfyngedig o fewn ffeiliau'r staff i ddangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant, gan gynnwys tystiolaeth o hyfforddiant ar adfywio cardio-pwlmonaidd. O

---

[3] Mae electroserio yn cyfeirio at broses lle y caiff trydan ei basio trwy wifren fetel, gan gynhyrchu gwres. Yna, caiff ei osod ar feinwe byw i stopio gwaedu neu i ddinistrio'r feinwe.

[4] Mae anaffylacsis yn adwaith alergedd difrifol a allai beryglu bywyd.

[5] Mae diffibriliwr yn ddyfais sy'n rhoi sioc drydanol egni uchel i'r galon trwy wal y frest i rywun sydd ag ataliad y galon.

[6] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, ymchwil a chydweithrediad. https://www.resus.org.uk/#

ganlyniad, mae'n rhaid gwneud trefniadau i ddangos bod staff yn gyfredol o ran eu hyfforddiant ar adfywio cardio-pwlmonaidd ar lefel sy'n briodol i'w rôl yn y clinig.

Yr hyn y mae angen ei wella Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i:

- sicrhau bod gwiriadau rheolaidd o gyfarpar a gedwir yn y clinig yn cael eu cwblhau'n effeithiol, gyda'r nod o sicrhau ei fod bob amser ar gael ac yn ddiogel i'w ddefnyddio
- cefnogi staff i gwblhau hyfforddiant ar adfywio cardio-pwlmonaidd ar lefel sy'n briodol i'w rôl o fewn y clinig

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i gefnogi gweithrediad y clinig. Roedd y rheini a oedd yn ofynnol gan y rheoliadau ar waith. Gwnaethom adolygu sampl o'r polisïau hyn a gwelsom dystiolaeth i ddangos eu bod wedi'u hadolygu yn ystod 2017. Efallai y byddai'r personau cofrestredig yn dymuno gwneud trefniadau i amlygu'r newidiadau hynny a wnaed i'r polisïau a'r gweithdrefnau ysgrifenedig, os o gwbl, i hyrwyddo darllen hwylus pan fo adolygiadau wedi'u gwneud.

Dywedodd uwch-staff am y ffordd yr oeddent wedi gwneud ymdrechion sylweddol i gael gwybodaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth, i ddangos eu bod yn ymarfer yn unol â chanllawiau clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er bod peth cynnydd wedi'i wneud, cadarnhaodd uwch-staff fod angen gwneud gwelliannau pellach yn hyn o beth. Cafodd hyn ei briodoli i anawsterau wrth gael yr wybodaeth hon gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth. Mae'n rhaid i'r person cofrestredig wneud trefniadau addas i ddangos bod y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion yn unol â chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac arfer gorau.

Yr hyn y mae angen ei wella Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i ddangos bod y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion yn unol â chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac arfer gorau.

## Rheoli cofnodion

Roedd polisi ysgrifenedig ar gael ar gyfrinachedd cleifion. Roedd hwn yn cyfeirio at y Ddeddf Diogelu Data.

Roedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth yn gyfrifol am reoli a diogelu cofnodion a wnaed yn ystod eu hymgynghoriadau â chleifion.

Roedd cofnodion ar gyfer cleifion a oedd wedi'u gweld gan y gwasanaeth meddyg teulu preifat yn y clinig ar gael i'w harolygu gan AGIC. Gwnaethom adolygu sampl o'r cofnodion hyn a chanfuom eu bod yn drefnus ac yn glir. Roedd y cofnodion yn cynnwys manylion o'r meddyg teulu'n gwneud y cofnod a dyddiad yr ymgynghoriad ynghyd â manylion digonol o'r canfyddiadau clinigol a'r gofal/triniaeth a roddwyd i bob claf. Gwelsom fod y cofnodion hyn wedi'u storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu a monitro ei berfformiad ei hun mewn perthynas â'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.*

Roedd tîm rheoli sefydledig ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd clir. Roedd staff hefyd yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol, gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan eu rheolwr. Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau i ddangos bod yr ymweliadau rheolaidd a wneir gan yr unigolyn cyfrifol yn ystyried yr elfennau hynny sy'n ofynnol gan y rheoliadau.  Gwnaethom hefyd nodi bod angen gwneud gwelliannau i ddangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant priodol.

### Y fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur rheoli ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd clir.

Gweithredwyd y clinig gan bartneriaeth o bum meddyg teulu, yr oedd un ohonynt yn rheolwr clinigol (unigolyn cyfrifol) i'r clinig. Roedd rheolwr cyffredinol (rheolwr cofrestredig) wedi'i benodi ac roedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd.

Cadarnhaodd staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu gwaith gan eu rheolwr a'u cydweithwyr.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael. Roedd y rhain yn darparu gwybodaeth am y clinig ac yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Gwnaethom nodi rhai diffygion, yn benodol roedd angen i'r datganiad o ddiben gynnwys manylion o'r trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau pobl am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, ac roedd angen i'r canllaw i gleifion gynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion (ac eraill) a gafwyd fel rhan o drefniadau sicrhau ansawdd y clinig a chopi o adroddiad arolygu mwyaf diweddar AGIC o'r clinig (neu wybodaeth ynghylch sut i gael mynediad ato).

Dywedodd uwch-staff fod cyfarfodydd busnes rheolaidd yn cael eu cynnal fel rhan o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y clinig. Dywedwyd wrthym y byddai'r cyfarfodydd hyn yn ystyried unrhyw newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau'r clinig, ynghyd â materion busnes cyffredinol sy'n ymwneud â'r clinig.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod yr unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r clinig o leiaf bob chwe mis, yn unol â'r rheoliadau. Diben yr ymweliadau hyn yw ystyried yr ymagweddau gwahanol sy'n ymwneud ag ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Er bod datganiadau wedi'u llunio o ganfyddiadau cyffredinol yr ymweliadau hyn, nid oedd y rhain yn dangos a oedd yr unigolyn cyfrifol wedi ystyried yr elfennau hynny sy'n ofynnol gan y rheoliadau. O ganlyniad, mae angen gwneud trefniadau i fynd i'r afael â hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella Mae'n ofynnol i'r person cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gynnwys: • manylion o'r trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau cleifion am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir o fewn y datganiad o ddiben • crynodeb o safbwyntiau'r cleifion (ac eraill) o fewn y canllaw i gleifion • copi o adroddiad arolygu mwyaf diweddar AGIC (neu wybodaeth ynghylch sut i gael mynediad ato) o'r clinig o fewn y canllaw i gleifion Mae'n ofynnol i'r person cofrestredig ddarparu manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i ddangos bod ymweliadau wedi'u cynnal yn unol â Rheoliad 28 Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn ystyried yr holl elfennau hynny a restrir yn y rheoliadau a enwyd uchod.

### Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar gael.

Roedd manylion ynglŷn â sut y gallai cleifion gyflwyno cwyn wedi'u cynnwys o fewn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys amserlen glir ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion. Yn unol â'r rheoliadau, roedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys yn ogystal. Roedd cleifion a ddarparodd sylwadau yn ymwybodol o sut i wneud cwyn, pe baent yn anfodlon ar y gwasanaeth a dderbynnid ganddynt.

Disgrifiwyd trefniadau ar gyfer adolygu digwyddiadau sylweddol a rhannu arferion dysgu o'r rhain er mwyn hyrwyddo diogelwch a llesiant cleifion.

### Cynllunio’r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Ar adeg ein harolygiad, cyflogwyd tîm o saith aelod o staff gan y clinig. Roedd y rhain yn cynnwys y rheolwr cofrestredig a derbynyddion. Gwnaethom siarad â nifer o staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad. Roedd pob un ohonynt yn gallu disgrifio ei rôl a'r ffordd yr oedd yn cyfrannu at weithrediad cyffredinol y clinig. Ar adeg ein harolygiad, roedd swydd y nyrs gofrestredig yn

wag. Cadarnhaodd uwch-staff fod y swydd wedi cael ei llenwi a bod unigolyn ar fin dechrau yn y swydd yn y dyfodol agos.

Darparwyd gwasanaethau gofal iechyd yn y clinig gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn ymweld â'r gwasanaeth (gyda breintiau ymarfer) nad oeddent wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y clinig.

Fel y disgrifiwyd yn gynharach, roedd gwybodaeth gyfyngedig o fewn ffeiliau staff i ddangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w rolau yn y practis. Cadarnhaodd uwch-staff nad oedd unrhyw hyfforddiant gorfodol cytunedig yr oedd disgwyl i staff ei gwblhau, heblaw am hyfforddiant ar adfywio cardio-pwlmonaidd a hyfforddiant ar ddiogelu. Oherwydd hyn, rhaid gwneud trefniadau i gytuno pa hyfforddiant sy'n ofynnol i staff ei gwblhau ac i ddangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rolau. Rhaid ystyried canllawiau iechyd a diogelwch perthnasol.

Canfuom nad oedd yr holl aelodau o staff wedi cwblhau arfarniad o'u perfformiad gwaith o fewn y 12 mis diwethaf. Rhaid gwneud trefniadau i fynd i'r afael â hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i:

- gytuno a nodi hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff
- cefnogi staff i fynychu hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i'w rolau
- dangos bod staff wedi mynychu a'u bod yn gyfredol o ran hyfforddiant perthnasol
- sicrhau bod staff yn derbyn arfarniadau priodol

### Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwnaethom adolygu sampl o ffeiliau staff (ar gyfer y rheini a gyflogir gan y clinig) a gwelsom fod ymdrechion wedi'u gwneud i adnabod addasrwydd pob unigolyn ar gyfer gweithio yn y clinig.

Gwnaethom hefyd adolygu sampl o ffeiliau staff ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth ac sy'n darparu gwasanaethau yn y clinig (ond nad ydynt wedi'u cefnogi gan y clinig). Roedd dogfennau ar gael a oedd yn nodi cofrestriad pob unigolyn â'i gorff proffesiynol, ei yswiriant indemniad cyfredol a'i hyfforddiant.

Roedd gan bob aelod o staff dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Er nad oes gofyniad penodol i gynnal gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rheolaidd, mae'n rhaid i'r personau cofrestredig sicrhau bod staff yn parhau i fod yn addas i weithio yn y clinig.[7]

[7] http://agic.org.uk/providing/dbs1/independent/?lang=cy

# 4. Beth nesaf?

Lle’r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod â rhybudd neu gallant fod yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael tua 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000
- Cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011
- Diwallu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| **Pryderon uniongyrchol a nodwyd** | **Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion** | **Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder** | **Sut cafodd y pryder ei ddatrys** |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Cyncoed Consulting Rooms

## Dyddiad yr arolygiad:13 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wneud gwybodaeth ar gael mewn ieithoedd a fformatau gwahanol, gan ystyried anghenion cyfathrebu a dymuniadau cleifion. | Rheoliad 18 (1)(b)<br>Safon 18 – Cyfathrebu'n effeithiol | Byddwn yn ymchwilio i anghenion ein cleientiaid dros y tri mis nesaf trwy holiadur cleifion, a byddwn yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau ar ddiwedd y cyfnod. | GM/SC | Awst 2018 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gwblhau asesiadau risg perthnasol.<br>Dylid ceisio cyngor gan yr Awdurdod | Rheoliad 9 (1)(e); 19(1)(b)<br>Safon 22 – Rheoli risg ac iechyd a | Wedi cofrestru gyda gwefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gwblhau ffurflen asesu risg ar gyfer busnesau bach i sefydlu gofynion. Bydd popeth yn cael ei | GM | Awst 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Gweithredol Iechyd a Diogelwch fel sy'n briodol. | diogelwch | ddiweddaru. | | |
| Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i storio ffurflenni presgripsiwn preifat yn ddiogel, pan na fyddant yn cael eu defnyddio. | Rheoliad 15 (5)(a)<br>Safon 15 Rheoli meddyginiaeth au | Mae presgripsiynau preifat bellach yn cael eu cadw mewn cwpwrdd dan glo, a chânt eu tynnu oddi yno dim ond pan fydd angen i'r meddyg teulu wneud hyn. | SC | Chwefror 2018 |
| Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gefnogi staff perthnasol i gwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ar lefel sy'n briodol i'w rôl o fewn y clinig. | Rheoliad 16 (1)(a),(b); 20 (2)(a)<br>Safon 11 Diogelu plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed | Creu cyfrifon ar-lein er mwyn i staff gwblhau cyrsiau ar Ddiogelu Plant/Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed yn ôl yr angen.<br>Staff gweinyddol – Lefel 1<br>Nyrsys – Lefel 2<br>Partneriaid Meddyg Teulu – Lefel 3 | SC | Awst 2018 |
| Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i:<br>sicrhau bod gwiriadau rheolaidd o'r offer a gedwir yn y clinig yn cael eu cwblhau'n effeithiol, gyda'r nod o sicrhau eu bod bob amser ar gael ac yn ddiogel i'w defnyddio | Rheoliad 15 (2); 20 (2)(a)<br>Safon 16 Dyfeisiadau, offer a systemau diagnostig meddygol | Yr unigolyn cyfrifol, Guy Marshall, i gwblhau ymweliadau bob chwe mis er mwyn ymdrin â'r archwiliad llywodraethu ansawdd – a fydd yn cynnwys offer – ac adrodd yn ôl yr angen. Ymweliad cyntaf ym mis Mehefin 2018. Mae angen i'r nyrs wirio bob wythnos fod yr offer ar gael ac yn ddiogel i'w ddefnyddio; | GM | Mehefin 2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| cefnogi staff i gwblhau hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd ar lefel sy'n briodol i'w rôl o fewn y clinig. | | cadwyd y cofnodion sydd ar gael. Clare Williams<br><br>Hyfforddiant ar ddadebru cardio-pwlmonaidd i'w gynnal. Ar hyn o bryd, rydym yn ymchwilio i opsiynau trwy Galonnau Cymru (hyfforddiant grŵp) neu "Becyn Call Push Rescue" Sefydliad Prydeinig y Galon (hyfforddiant i'w gynnal gan Dr Jones neu Dr Kirkwood.) | GM/SC | Hydref 2018 |
| Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion yn unol â chanllawiau arferion gorau a chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. | Rheoliad 15 (1)<br><br>Safon 7 Gofal diogel a chlinigol effeithiol | Ysgrifennu at ymgynghorwyr a gofyn iddynt ddarparu manylion y canllawiau arferion gorau y maent yn eu defnyddio. Gofyn hefyd am gopïau o unrhyw hyfforddiant ychwanegol sydd wedi'i gwblhau yn y 12 mis diwethaf. | SC | Awst 2018 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i gynnwys: | Rheoliad 6 (1), Atodlen 1; 7 (1)(e),(g)<br><br>Safon 1 | Bydd Cyncoed Consulting Rooms yn | | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| manylion y trefniadau ar gyfer ceisio safbwyntiau cleifion am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir o fewn y datganiad o ddiben<br><br>crynodeb o safbwyntiau'r cleifion (ac eraill) o fewn y canllaw i gleifion<br><br>copi o (neu wybodaeth ynghylch sut i gael mynediad at) adroddiad arolygu mwyaf diweddar AGIC ar gyfer y clinig, o fewn y canllaw i gleifion | Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd | archwilio profiadau cleifion bob blwyddyn (yn dilyn canllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol) trwy holiadur, a bydd yn cyhoeddi'r canlyniadau yn y canllaw i gleifion ac ar-lein.<br><br>I'w gwblhau gan yr unigolyn cyfrifol, Guy Marshall, yn ystod ei ymweliad cyntaf er mwyn paratoi adroddiad ansawdd llywodraethu ac edrych ar ymatebion yr holiaduron i gleifion.<br><br>Mae hyn bellach wedi'i ychwanegu at ein canllaw i gleifion. | GM<br><br>GM<br><br>SC | Awst 2018<br><br>Mehefin 2018<br><br>Chwefror 2018 |
| Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod yr ymweliadau a gwblhawyd yn unol â Rheoliad 28 o'r Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 yn ystyried yr holl elfennau hynny a restrir yn y rheoliadau a enwyd uchod. | Regulation 28(4)(a),(b),(c)<br><br>Safon 1 Y fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd | Bydd yr unigolyn cyfrifol, Guy Marshall, yn cymharu adroddiad bob chwe mis, yn dechrau ym mis Mehefin 2018, gyda chanfyddiadau o ymweliad, cyfweliadau ac arolygiad. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei anfon at reolwr y swyddfa ac at bartneriaid y busnes. | GM | Mehefin 2018 |
| Mae'n ofynnol i'r personau cofrestredig ddarparu | Rheoliad 20 (2)(a) | Ffurflen rhestr wirio wedi'i llunio ar gyfer | SC | Chwefror |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i:<br><br>gytuno a nodi hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff<br><br>cefnogi staff i fynychu hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i'w rolau<br><br>dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant perthnasol a bod yr hyfforddiant hwnnw'n gyfredol<br><br>sicrhau bod staff yn derbyn arfarniadau priodol | Safon 25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol | hyfforddiant staff.<br><br>Adolygu hyfforddiant gorfodol sy'n berthnasol i rolau unigol.<br><br>Ffurflen i'w defnyddio i gofnodi dyddiadau hyfforddiant wedi'u cwblhau.<br><br>Mae angen i Anna MacLean gwblhau arfarniadau maes o law. | SC<br><br>SC<br><br>AM | 2018<br><br>Awst 2018<br><br>Mehefin 2018 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):Guy Marshall

## Swydd: Partner

## Dyddiad:26 Chwefror 2018